



CYNNWYS / CONTENTS

	<u>Tudalen/Page</u>
Cyflwyniad / Introduction	3
Manylion yr Ysgol / School Details	4
Amcanion yr Ysgol / School Aims	6
Trefniadaeth yr Ysgol / School Organisation	7
Trefn y Dosbarthiadau a Staffio / Classroom and Staffing Organisation	8
Gofal Bugeiliol / Pastoral Care	10
Trefn Diogleu Plant / Child Protection Procedures.....	12
Plant y goflair amdanynt / LAC	13
Disgyblaeth / Discipline	14
Cwricwlwm yr Ysgol / The School's Curriculum	16
Gwaith Cartref / Homework	18
Trefniadau ar gyfer Addysg Grefyddol / Arrangements for Religious Education	19
Addysg Bersonol a Chymdeithasol / Personal and Social Education	20
Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol / Children with Addition Learning Needs	21
Cyfleodd Cyfartal / Equal Opportunities	25
Addysg Rhyw / Sex Education	26
Nodau Chwaraeon / Sporting Aims	26
Gwisg Ysgol / School Uniform.....	27
Gweithgareddau Allgyrsiol / Extra-curricular Activities	28



Cyngor Ysgol / School Council.....	28
Ysgol Eco / Eco School	29
Ysgolion Iach / Healthy Schools.....	29
Cysylltiadau â'r Rhieni / Parental Links	30
Adrodd i Rieni / Reporting to Parents	31
Polisi Derbyniadau i'r Ysgol / School Admissions Policy.....	32
Polisi Taliadau ac Ad-daliadau / Charging and Remissions Policy	33
Archwilio Cynlluniau Gwaith a Dogfennau Eraill / Arrangements for Access to Documents	33
Absenoldeb a Phrydlondeb / Absences and Punctuality	34
Diogelwch Ysgol / School Safety	34
Trefniadau ar gyfer gwneud Cwyn / Complaints Procedures	35
Tymhorau Ysgol a Gwyliau 2018-2019 / School Terms and Holidays 2018-2019	36
Crynodeb o ganlyniadau Athro Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen Summary of the Teacher Assessment of Foundation Phase Outcomes...	37
Canlyniadau Asesiad Athro CA2 / KS2 Teacher Assessments	37



Croeso

Mae'n bleser gan y Llywodraethwyr, y Pennaeth a'r Staff gyflwyno'r prospectws yma i rieni a darpar rieni. Ynddo ceir gwybodaeth sylfaenol am ein hysgol. Ni fydd mewn unrhyw ffordd yn cymryd lle'r berthynas bersonol ac uniongyrchol honno rhwng ysgol a rhieni, ond mae'n fodd i gadarnhau hynny a bod yn sylfaen i adeiladu arni.

Ymfalchiwn yn ein safonau uchel ac rydym yn cynnig ystod eang o brofiadau er mwyn datblygu'r unigolyn cyflawn mewn ethos cartrefol Cymreig.

Anelwn at fod yn ysgol hapus a llwyddiannus. Lles ein disgyblion sydd bob amser wrth wraidd ein penderfyniadau. Mae dewis yr ysgol orau i'ch plentyn yn benderfyniad allweddol ac mae dewis anfon eich plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ddewis pwysig. Mae llawer mantais o fedru siarad dwy iaith a mwynhau dau ddiwylliant a thrwy ddewis addysg Gymraeg bydd hyn yn rhywbeth y bydd eich plentyn yn medru mwynhau.

Diolch i chi am ddewis addysg Gymraeg ar gyfer eich mab/ merch.

Welcome

The Governors, Headteacher and Staff have pleasure in presenting this prospectus to parents and prospective parents. In it you will find basic information about the school. This, of course, does not take the place of the direct and personal contact that parents have with the school, but it can be a foundation on which to build.

We take pride in our high standards. We offer a wide range of experiences that encourages and develops our pupils in a caring Welsh ethos.

We aim to be a happy and successful school. We make informed decisions with the pupil's wellbeing at the forefront of our mind.

Choosing the best school for your child is vital and choosing to send your child to a Welsh medium primary school is an important decision. There are many advantages to being able to speak two languages and enjoy two cultures and by choosing Welsh medium education this is something that they can enjoy

Thank you for choosing Welsh medium education for your son/ daughter.



YSGOL GYMRAEG RHOSAFAN

Cyfeiriad
Address Marine Drive, Port Talbot, SA12 7NN

Rhif ffôn
Telephone 01639 896338

E-bost
email yggrhosafan@npt.school

Gwefan
Website <https://ygg-rhosafan.j2bloggy.com/>

Oed y disgyblion
Age of pupils 3 – 11

Nifer ar y Gofrestr
Number on Roll 370

Cadeirydd y
Llywodraethwyr
Chair of Governors Mr.K.Edwards

Pennaeth
Headteacher Mrs. J.Griffiths, B.Add. (Anrhydedd)

Oriau Ysgol
School hours

Meithrin / Nursery

Bore/*Morning* 9.00 y.b./a.m. – 11.40 y.b/a.m.

Prynhawn/*Afternoon* 13.00 y.p./a.m. - 3.25 y.p./p.m.

Babanod/Infants

Bore/*Morning* 9.00 y.b./a.m. – 11.55 y.b/a.m.

Prynhawn/*Afternoon* 13.00 y.p./a.m. - 3.25 y.p./p.m.

Iau/Juniors

Bore/*Morning* 9.00 y.b./a.m. – 12.00 y.b/a.m.

Prynhawn/*Afternoon* 13.00 y.p./a.m. - 3.30 y.p./p.m.

Clwb Brecwast
Breakfast Club 08.20 – 08.50 yn ddyddiol / *daily*



**Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a thrwyddi yr addysgir y
disgyblion.**

***The official language of the school is Welsh and the medium through
which pupils are educated.***



Amcanion yr Ysgol

Sicrhau llwyddiant i'r unigolyn o fewn y broses addysgol.
Sicrhau addysg effeithiol i bob unigolyn a bod y plentyn hwnnw yn ganolog i'r dysgu a chyfraniad pob unigolyn yn cael ei barchu.

Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu yn emosiynol, yn gymdeithasol, yn foesol ac yn addysgol hyd eithaf ei allu.

Sicrhau awyrgylch hapus a chartrefol a bod yr ethos yma yn hybu'r iaith a diwylliant Cymraeg a Chymreig, a bod amgylchedd yr ysgol yn adlewyrchu parch drwy safonau uchel o arddangos a gofal.

Meithrin cysylltiadau â'r gymuned leol, a dechrau paratoi plant i fod yn oedolion cyfrifol yn eu cymunedau.

Anelwn at ddatblygu rhinweddau personol trwy Addysg Gwerthoedd, fel dyfalbarhad, hunan fynegiant, gwasanaeth, teyrngarwch, gonestrwydd a hunan hyder ac i annog hunan barch a pharch at eraill.

Anogwn bob plentyn i chwarae rôl flaenllaw a gweithredol ym mywyd yr ysgol.

School Aims

To ensure the success of the individual child within the education process.

To ensure an effective education for the individual, in which the child is central to the learning process and each individual's contribution is respected.

To ensure that each child has the opportunity to develop emotionally, socially, morally and intellectually to his/her utmost.

To ensure a happy and safe environment within the school, and an ethos which promotes the Welsh language and culture, and that the school's environment reflects respect through high standards of display and care.

To foster close links with the local community and begin preparing children to become responsible adults in their community.

We seek to develop personal qualities through values education that encourages qualities such as perseverance, diligence, self expression, service, loyalty, honesty and self confidence and to encourage self respect as well as respect for others.

We strongly encourage every child to play an active and prominent role in school life.



Trefniadaeth yr Ysgol

Trwy drefniadaeth ofalus mae'r ysgol yn ceisio rhoi'r ddarpariaeth addysgol orau i'r plant.

Rhennir yr ysgol i ddosbarthiadau yn ôl oedran y plant. Ar hyn o bryd mae wyth dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a chwech dosbarth Iau. Daw plant y Meithrin i'r ysgol y diwrnod ar ôl eu penblwydd yn dair oed. Mae sesiynau'r Meithrin yn rhai hanner diwrnod.

School Organisation

By careful organisation, the school aims to provide the best possible education for its pupils.

The school is divided into age determined year classes. At present there are eight classes in the Foundation Phase and six Junior classes. Nursery children are admitted to school the day after their third birthday – space providing. Nursery children attend for half-day sessions.



Trefn y Dosbarthiadau a Staffio *Classroom and Staffing Organisation*

Medi/September 2019– Gorffennaf/July 2020

Bl./Yr. 6	Mr. Ll. Gravell (Athro / Teacher)
Bl./Yrs. 5/6	Mrs. D. Morgan (Athrawes / Teacher)
Bl./Yr. 5	Mr. A. Cole (Athro / Teacher)
Bl./Yr. 4	Mr E Griffiths (Athrawes / Teacher)
Bl./Yr 3/4	Mrs. Ff. Morgan(Athrawes / Teacher)
Bl./Yrs. 3	Mrs D. Williams (Athrawes / Teacher)
Bl./Yr. 2	Mrs. Rh. Davis (Athrawes / Teacher)
Bl. /Yr. 1/2	Mrs G. Jenkins (Athrawes / Teacher)
Bl. / Yrs. 1	Mrs. A Young (Athrawes / Teacher)
Derbyn/ Reception	Mrs. N. Lewis (Dirprwy Bennaeth/ Deputy Head)
Derbyn / Reception	Mrs. L. Davies (Athrawes / Teacher)
Meithrin (bore) Nursery (morning)	Miss R. Falvey / Mrs A. Lewis
(Athrawes / Teacher) Meithrin (prynhawn) Nursery (afternoon)	Miss R. Falvey / Mrs A. Lewis

Cynorthwywyr Cynnal Dysgu / Teaching Assistants

Mrs. G. Griffiths (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Mrs. L. Sutcliffe-Davies (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Mrs. E. Williams (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Mrs. L. Davis (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Mrs. E. Brette (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Miss. L. Aston (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Miss. A. Hendley (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Miss. J. Davies (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Miss. L. Pritchard Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Mr. W. Launchbury (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Miss. L. Morgan (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)
Mr T Lewis (Cymhorthydd Addysgu / Teaching Assistant)



Cydlynnydd A.D.Y. / A.L.N.Co.

Mrs J Griffiths

CPA

Miss. A. Hendley

Mrs. E. Williams

Staff Teithiol / Peripatetic Staff

Mr. Pierce (Pres/Brass)

Mr. Rees (Drymiau)

Pennaeth / Headteacher Mrs. J. Griffiths

Ysgrifenyddes / Secretary Mrs. R. Harries

Ysgrifenyddes / Secretary Miss. D. Williams

Bwrsar / Bursar Mr. H. Lewis

Gofalydd / Caretaker Mr. T. Reid



Gofal Bugeiliol

Mae pob athro / athrawes yn gyfrifol am y plant yn eu dosbarthiadau, a'r Pennaeth â chyfrifoldeb dros y cyfan. Ceisiwn greu amgylchedd ddiogel tu mewn a thu allan i'r ysgol, ac rydym bob amser yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch. Rydym yn mabwysiadu agwedd ofalgar a chydymdeimladol tuag at anghenion pob plentyn o fewn awyrgylch gynnes a chartrefol.

Os yw plentyn yn sâl neu os caiff ddamwain, bydd yr ysgol yn ceisio cysylltu â'r rhieni trwy ddefnyddio'r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth rieni ar y ffurflen gyswllt.

Ni fydd staff yr ysgol yn ymgymryd ag unrhyw gytundeb i roi moddion i ddisgyblion. Pan fydd angen moddion cynorthwyol (e.e. pwmp asthma) gall y plant gymryd y rhain yn ôl yr angen a'u cadw'n ddiogel. Os oes ansicrwydd ynglŷn â moddion yn yr ysgol, gellir trafod gyda'r Pennaeth.

Caiff plant eu goruchwylio yn ystod yr awr ginio ac amseroedd chwarae.

Cynhelir dril tân yn rheolaidd.

Archwilir yr offer Ymarfer Corff a cheir goruchwyliaeth gyfrifol yn ystod y gwersi hyn.

O bryd i'w gilydd bydd swyddogion meddygol a deintyddol yr Awdurdod Iechyd yn ymweld â'r ysgol. Caiff rieni'r wybodaeth angenrheidiol cyn yr ymweliadau hyn, a chysylltir â hwy os fydd unrhyw broblemau yn codi yn eu sgil.

Gwna'r ysgol ddefnydd hefyd o wasanaethau eraill yn yr Awdurdod, megis y Gwasanaeth Seicolegol a'r Gwasanaeth Lles.



Pastoral Care

Every class teacher is responsible for the children in his/her class with the Headteacher having overall responsibility. We aim to create a safe environment in and around the school, and are always mindful of health and safety issues. We adopt a caring, compassionate attitude towards the general well-being of each pupil.

If a child is ill or has an accident, the school does its utmost to contact parents by using the information given by parents on the registration form.

Staff at the school will not undertake any agreement to administer medicine to pupils. When pupils require support medicines (e.g. asthma pumps), pupils can take these as and when required and keep them in a safe place. Any uncertainty regarding medicines at school should be discussed with the Headteacher.

Children are supervised during lunch and play breaks.

A fire drill exercise is held regularly.

Inspection of P.E. equipment is undertaken and there is responsible supervision during these lessons.

Medical and dental personnel from the Health Authority visit the school at regular intervals. Parents are given the necessary information regarding these visits and will be contacted if any problems arise.

Close links exist with the Schools' Psychological Service and the Education Welfare Service.



TREFN DIOGELU PLANT

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn âg esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater wrth Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall Cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol y sir.

Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol amymchwilio i gyhuddiadau.

Y Pennaeth yw Cyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

CHILD PROTECTION PROCEDURES

All members of staff within this school are responsible for the safety and protection of the children who attend. If there are concerns regarding neglect or physical, emotional or sexual abuse then, under the County's Child Protection Procedures, staff are duty bound to report the matter to the School's Child Protection Co-ordinator.

The school's Co-ordinator may consult with professional colleagues as well as relevant agencies such as Health and Social Services. Following these discussions, the school's Co-ordinator may be obliged to make an official referral to the Social Services Department in accordance with county guidelines and protocol. It is the Social Services Department who decide on the next course of action.

Due to the nature of allegations it may not always be appropriate to discuss matters with parents prior to making a referral. The responsibility for investigating allegations lies with Social Services and the Police.

The Head Teacher is the School's Child Protection Co-ordinator.



Plant y gofelir amdanynt

Mae anghenion yr holl ddisgyblion sydd o dan ofal yr Awdurdod Addysg Leol yn cael eu diwallu. Mae'r ysgol yn deall natur fregus anghenion y disgyblion ac yn gweithio'n agos gyda chydgyssylltiad ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac asiantaethau eraill i sicrhau ein bod ac yn diwallu anghenion y disgyblion. Y person a enwir sy'n gyfrifol am y Plant dan ofal yn yr ysgol yw'r pennaeth, Julia Griffiths sydd yn sicrhau, mewn ymgynghoriad â'r athro dosbarth, bod cymorth priodol mewn lle a bod cynnydd yn cael ei fonitro.

LAC

The needs of all pupils identified as Looked After are met. The school understands the vulnerability of these pupils and links with the Looked After Children's Co-ordinator for Neath Port Talbot and other relevant services on a multi-agency basis to ensure that their needs are met. The named person with responsibility for Looked After Children in school is the head teacher, Julia Griffiths who ensures, in consultation with the class teacher, that appropriate support is identified and progress monitored.



Disgyblaeth

Gosodir pwyslais mawr ar sicrhau safonau o ymddygiad da, ystyriaeth at eraill a pharch tuag at eiddo. Cred yr ysgol bod rhieni yn gyfrifol am ymddygiad eu plant. Yn yr ysgol disgwylir i'r ymddygiad hwnnw fod yn gydnaws â disgwyliadau'r gymuned ac adlewyrchu'r safonau a'r gwerthoedd a feithrinir gan yr ysgol. Cred yr ysgol fod gan blant yr hawl i drefn a disgyblaeth i'w galluogi i weithio'n dawel ac yn ddiogel. Y Pennaeth gyda chymorth y staff sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth yr ysgol ac am sicrhau ymateb i reolau'r ysgol. Mae'r pwyslais ar ddatblygu hunanddisgyblaeth, fel bo trefn a gofal, yn rhan annatod o ethos yr ysgol.

Yn ein hysgol mae yna bwyslais clir ar GANMOL a GWOBRWYO, yn hytrach na thynnu sylw at ymddygiad gwael.

Er mwyn cydnabod ymddygiad da mae system wobrwyo yn bodoli yn ein hysgol sy'n pwysleisio CANMOLIAETH A GWOBRWYO.

Mae'n bwysig iawn bod y plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore, er mwyn osgoi amharu ar blant eraill ac ar staff addysgu, yn ogystal ag aflonyddu ar ddilyniant eu dysgu eu hunain.

Mae gan yr ysgol bolisiâu disgyblaeth a gwrth-fwlio. Mae copïau o'r rhain ar gael oddi wrth yr ysgol trwy gais.



Discipline

A particular emphasis is placed on standards of good behaviour, consideration for others and respect for property. The school believes that parents are responsible for the behaviour of their children, and within the school situation this behaviour must be acceptable to the community therein and reflect the values and standards expected by the school. The school believes that children have a right to order and discipline to enable them to work in peace and security. The overall discipline and enforcing of school rules is the responsibility of the Headteacher with the assistance of the staff. An emphasis is placed on self-discipline, so that order and care are an integral part of the school's ethos. At our school there is a clear emphasis on PRAISE and REWARD, rather than drawing others' attention to unacceptable behaviour.

If a child has mis-behaved, then that child needs to be informed of the reasons behind the member of staff's (teaching and non-teaching) discontented with him/her.

In order to recognise and acknowledge good behaviour there is an existing rewards system at our school which places a great emphasis on PRAISE and REWARDS.

It is very important that children arrive at school in good time in the mornings; a pupil arriving late may seriously disrupt not only his or her continuity of learning but also that of others, not to mention that child's teacher and learning support staff.

The school has discipline and anti-bullying policies. Copies can be obtained from the school by request.



Cwricwlwm yr Ysgol

Cynlluniwyd ystod eang o brofiadau addysgol er mwyn diwallu anghenion pob plentyn. Rhoddir pwyslais ar brofiadau uniongyrchol i blant fel sail i'r dysgu ac mae'r cwricwlwm wedi'i greu i fod yn ddiddorol, yn ymestynnol, yn eang ac yn berthnasol. Bydd yn gwricwlwm cynhwysfawr ac yn cynnwys gofynion y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (o 3 i 7 oed), a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol (o 7 i 11 oed). Y mae'r cwricwlwm cyfan yn meithrin y plentyn fel unigolyn, yn rhoi'r cyfle iddo/iddi ddatblygu'n feddyliol ac ar yr un pryd yn datblygu ynddo/ynddi ymwybyddiaeth o gymdeithas ac o gyd-ddyn, o fyd a bywyd.

Y Cyfnod Sylfaen

Chwe maes dysgu sy'n ffurfio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy brofiad – dysgu trwy wneud a thrwy ddatrys problemau y tu mewn ac yn yr awyr agored. Y chwe maes dysgu yw:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol,

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Datblygiad Mathemategol

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Datblygiad Corfforol

Datblygiad Creadigol



Y Cyfnod o 7 – 11 oed (Cyfnod Allweddol 2)

Deil plant o 7 i 11 oed i gydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 cynhwysir y canlynol:

Pynciau Craidd - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

Pynciau Sylfaen – Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg, Hanes,

Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol.

Mae'r cwricwlwm sylfaenol hefyd yn cynnwys Addysg Grefyddol ac Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh)

Asesu

Asesir man cychwyn y plant o fewn chwe wythnos o ddechrau ysgol yn y dosbarth Meithrin. Adroddir yn ffurfiol i'r rhieni ar asesiadau ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 7 oed.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae asesiadau athrawon statudol diwedd y Cyfnod Allweddol yn cofnodi cyrhaeddiad disgyblion.



The School's Curriculum

A wide range of educational experiences are planned to meet the individual needs of every child. Emphasis is placed on giving children direct experiences as stimuli to the learning process. The curriculum aims to be interesting, broad and relevant. The content of the curriculum is comprehensive and includes the requirements of the Foundation Phase in Wales (3 – 7 year olds) and the National Curriculum (7 - 11 year olds). The curriculum nurtures the child as an individual, and gives him/her the opportunity to develop intellectually and at the same time develop awareness of community and fellow man, of the world and of life.

The Foundation Phase



There are six areas of learning that form the Foundation Phase Curriculum. Emphasis has been placed on developing children's knowledge, skills and understanding through experiential learning – learning by doing and solving real life problems both inside and outside the classroom. The six areas of learning are:

*Personal and Social Development, Well Being and Cultural Diversity
Language, Literacy and Communication Skills
Mathematical Development
Knowledge and Understanding of the World
Physical Development
Creative Development*



The school has been disapplied from the requirements of the National Curriculum for 3-7 year olds.

The Primary Phase for 7 – 11 year olds (Key Stage 2)

*Children from 7 to 11 are taught according to the requirements of the National Curriculum. At Key Stage 2, the National Curriculum consists of:
Core Subjects – Welsh, English, Mathematics and Science
Foundation Subjects – Information Technology, Design and Technology, History, Geography, Art, Music and Physical Education*

The basic curriculum also consists of Religious Education and Personal and Social Education (PSE)

Assessment

*The pupils are assessed within the first six weeks of starting school in the Nursery class, attainment is formally fed back to parents at the end of the Foundation Phase.
At Key Stage 2, statutory teacher assessments and levels are fed back to parents at the end of year 6.*



Gwaith Cartref

Ystyrir gwaith cartref yn rhan o'r cwricwlwm. Mae gwaith cartref yn ymestyniad o weithgareddau'r dosbarth – yn atgyfnerthu ac ymestyn agweddau o waith a ddaethpwyd ar eu traws yn ystod oriau ysgol. Mae gwaith cartref ystyrlawn yn cymhell plant i weithio'n annibynnol.

Gall tasgau gwaith cartref fod yn amrywiol eu natur. Mae dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cadw dyddiadur dysgu ac yn datblygu sgiliau a diddordebau.

Gofynnir i rieni helpu eu plant drwy roi'r cyfle a'r anogaeth iddynt i astudio gartref.

Rydym yn annog plant i fynd â'u llyfrau darllen a'u llyfrau cofnod darllen adref ar bob cyfle, fel bod rhieni/gwarchodwyr yn gallu rhannu a chefnogi darllen eu plant.

Os oes problemau ynglŷn â gwaith cartref yna cysylltwch â'r ysgol bob tro.



Homework

Homework is regarded as part of the curriculum. It will be an extension of lesson activities - reinforcing, extending and consolidating aspects of work encountered during the school day. Meaningful homework motivates pupils to work independently.

Homework tasks can take a variety of forms and pupils in Key stage 2 are encouraged to develop their interests and learning in their learning journals/ logs.

Parents are asked to assist by giving their children the opportunity and encouragement to study at home.

Children with reading books will be encouraged to take them home regularly, as well as their Reading Record books, in order that parents/carers share and support the child's reading.

If problems arise with homework, please contact the school.





Trefniadau ar gyfer Addysg Grefyddol

Mae Addysg Grefyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm, ac fe addysgir y pwnc yn ôl Maes Llafur Cytunedig yr Awdurdod Lleol. Fe fydd yn cynnwys astudiaeth o Gristnogaeth, sef y grefydd sydd wedi dylanwadu fwyaf ar ein diwylliant ni, ac yn sail i sefydliadau cymdeithasol, arferion moesol a phatrymau ymddygiad. Yn ogystal, fe fydd y plant yn astudio rhai o brif grefyddau eraill ein byd.

Mae ein gwasanaethau dyddiol yn cynnig cyfle i bawb i gydaddoli a chyd-fyfyrio. Mae gan rieni'r hawl i hepgor eu plant o'r ddarpariaeth hon; a gwneir darpariaeth arall ar gyfer y disgyblion a dynnir yn ôl.

Arrangements for Religious Education

Religious Education is a compulsory element within the curriculum, and is taught in accordance with the Authority's Agreed Syllabus. It will include the study of Christianity, the religion which has most influenced our own culture, giving rise to social institutions, moral codes and patterns of behaviour. The children will also study other leading world religions.

Our daily assemblies provide opportunities for collective worship and meditation. Parents have the right to withdraw pupils from Religious Education lessons and assemblies; and alternative provision will be made for pupils who are withdrawn.



Addysg Bersonol a Chymdeithasol



Mae'r rhan yma o'r cwricwlwm yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. I gefnogi'r agwedd yma defnyddia'r ysgol fewnbwn o asiantaethau eraill. Bydd rhaglen gan y nyrs ysgol yn hybu agweddau o ABCh. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn Rhaglen Addysg Graidd Cymru Gyfan sydd wedi'i threfnu gan yr heddlu. Fel rhan o'r rhaglen hon fe ddaw heddwys cyswllt yr ysgol i ymweld yn rheolaidd i roi gwersi ar agweddau o'r fframwaith ABCh. Mae gan yr ysgol hefyd Gyngor Ysgol o ddisgyblion a staff a'i ddiben yw galluogi disgyblion i drafod materion sy'n ymwneud â'u hysgol, eu haddysg ac unrhyw fater arall y maent yn ymboeni amdano. Caiff y sylwadau eu trosglwyddo i'r pennaeth, ac os yn berthnasol, i'r Corff Llywodraethu.



Personal and Social Education

This aspect of the curriculum promotes the personal and social development of its pupils. To support this the school utilizes the help given by various agencies. The school nurse presents a programme throughout the school which supports aspects of PSE. The school participates in the all Wales Core Programme developed by the police. The school's liaison police officer visits classrooms on a regular basis to present lessons which support aspects of the PSE framework.



The school has a School Council of pupils and staff and its aim is to enable pupils to discuss matters relating to their school, their education, and any other matter which causes them concern. The issues raised are relayed to the headteacher, and if appropriate, to the Governing Body.



Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym yn cydnabod fod pob athro â chyfrifoldeb dros blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar rai plant er mwyn iddynt elwa'n llawn o'r cwricwlwm a gynigir gennym. Bydd pob plentyn sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn derbyn sylw cyson mewn grwpiau bychain fydd yn cefnogi eu gwaith dyddiol o fewn ystafelloedd dosbarth arferol y plant, yn ogystal â'u heithrio ar gyfer sesiynau dysgu yn ymwneud yn benodol â'u Cynlluniau Addysgol Unigol. Mae polisi ysgrifenedig yr ysgol yn cydymffurfio â'r 'Côd Ymarfer', a gall rhieni archwilio neu sicrhau copi ohono trwy gysylltu â'r Pennaeth.

Adnabyddir plant ag A.D.Y. trwy:

- * arsylwadau, asesiadau a nodiadau'r athrawon dosbarth; a chymharu cyrhaeddiad a chynnydd plant â'i gilydd
- * profion darllen safonol
- * canlyniadau asesu statudol

Cynhelir trafodaethau anffurfiol a ffurfiol â rhieni i drin anghenion plant; ac fe roddir plentyn/plant ar y gofrestr A.D.Y.

Ymateb Graddoledig yn y Cyfnod Cynradd:

Gweithredu gan yr Ysgol:

Pan fydd athro dosbarth yn canfod bod gan blentyn ADY, neu y gall fod ganddo ADY, mae'r athro dosbarth yn paratoi ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol arferol yr ysgol neu'n wahanol iddynt.

- Mae'r athro dosbarth yn parhau'n gyfrifol am weithio gyda'r plentyn o ddydd i ddydd ac am gynllunio a chyflwyno rhaglen unigol
 - Caiff Cynllun Addysgol Unigol (CAU) ei baratoi
 - Gallai'r Cydlynnydd ADY gymryd rhan arweiniol yn y gwaith o - Gynllunio ymyriadau ar gyfer y plentyn wedi trafod gyda chydweithwyr; Monitro ac adolygu'r camau a gymerir.



Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy:

- Mae'r Cydlynnydd ADY a'r athro dosbarth, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, yn gofyn am gymorth gwasanaethau allanol;
 - Mae'r athro dosbarth a'r Cydlynnydd ADY yn cael cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr allanol;
- Caiff strategaethau eu paratoi sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir ar gyfer y plentyn trwy Weithredu gan yr Ysgol neu'n wahanol iddynt;
 - Caiff CAU ei baratoi;
 - Dylai'r Cydlynnydd ADY gymryd rhan arweiniol:
 - Mewn unrhyw asesiad pellach o'r plentyn
 - Wrth gynllunio ymyriadau ar gyfer y plentyn wedi trafod gyda chydweithwyr
 - Wrth fonitro ac adolygu'r camau a gymerir.

Ar y pegwn arall, fe ddarperir gwaith ymestynnol i blant galluog er mwyn cyfoethogi eu profiadau cwricwlaidd.

